Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA(P)VG/2190-17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Y Cynulliad Cenedlaethol
Bae Caerdydd
CF99 1NA

25 Medi 2017

Annwyl Lynne,

MEWNGYMORTH IECHYD MEDDWL PLANT A'R GLASOED I YSGOLION

Yn y blynyddoedd diweddar, mae'r Pwyllgor wedi dangos cryn ddiddordeb yn ein gwaith o wella gwasanaethau iechyd meddwl ac emosiynol i blant a phobl ifanc, trwy raglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a thrwy fuddsoddi bron i £8 miliwn o arian newydd mewn gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed (CAMHS).

Rwyf hefyd yn ymwybodol eich bod wedi cytuno i gynnal rhagor o waith ar wella iechyd meddwl ac emosiynol plant a phobl ifanc, a bod un o'r meysydd yr ydych angen tystiolaeth yn ei gylch yn ymwneud â chysylltiadau CAMHS ag addysg. Felly, hoffwn dynnu'ch sylw at fenter newydd yr ydym yn ei lansio i feithrin cysylltiadau ar draws addysg a CAMHS.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a minnau wedi cytuno ar bron i £1.4 miliwn o gyllid newydd gan Lywodraeth Cymru tuag at fenter newydd bwysig i sicrhau bod plant ac athrawon yn cael y cymorth iechyd meddwl ac emosiynol sydd ei angen arnynt pan fo'r angen arnynt fwyaf.

Ein bwriad yw dechrau'r fenter ddiwedd 2017, a fydd yn para am ddwy flynedd academaidd cyn dod i ben yn haf 2020. Atodaf gopi o'r datganiad ysgrifenedig am y fenter a ddarparwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ac sy'n cynnwys rhagor o fanylion am y cynnig. Bydd y fenter yn cael ei gwerthuso ar sail amrywiaeth eang o fesurau o safbwynt athrawon a'r disgyblion.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hyderaf y byddwch chi'n croesawu'r fenter hon fel cynnig cyffrous ac unigryw.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Darparu ar gyfer anghenion emosiynol ac iechyd meddwl pobl ifanc mewn ysgolion**
DYDDIAD	**25 Medi 2017**
ERBYN	**Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**

Mae *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* yn nodi bod iechyd meddwl yn faes â blaenoriaeth. Mae'n adeiladu ar *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* (2012) sy'n cydnabod y gellir atal problemau mwy difrifol rhag digwydd yn ddiweddarach mewn bywyd drwy nodi problemau'n gynnar a mynd i'r afael â nhw.

Mae lleoliadau ysgol yn allweddol i hybu iechyd meddwl da ac ym mis Mai 2017 cyhoeddwyd Fframwaith Nyrsio Ysgolion i Gymru sy'n nodi fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion i blant a phobl ifanc sy'n ddiogel, yn hygyrch ac o ansawdd uchel. Nod y fframwaith yw mynd ati'n rhagweithiol i adeiladu ar y gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion cyfredol ac ymestyn ymarfer da i'r holl blant a phobl ifanc o oedran ysgol. Yn benodol, mae Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Nyrsys Ysgol y GIG i Hybu Llesiant Emosiynol a Chefnogi Anghenion Iechyd Meddwl Plant Oedran Ysgol, yn nodi'r safonau ar gyfer Nyrsys Ysgol y GIG er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys i gefnogi llesiant emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc sy'n mynychu sefydliadau addysgol.

Mae'r rhan fwyaf o blant rhwng tair a 18 oed yn mynychu ysgol am hyd at 30 awr yr wythnos. Mae hyn yn gwneud ysgolion yn lleoliadau allweddol ar gyfer hybu iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol a darparu mesurau atal ac ymyrraeth gynnar yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae angen i athrawon gael cymorth a chefnogaeth wrth ymateb i blant sydd ag anawsterau fel pryder, sy'n isel eu hysbryd ac sydd ag anhwylderau gorfodaeth, hunan-niweidiol neu ymddygiad; ac mae gan y GIG ran yn hyfforddi ac ymgynghori ar draws y sectorau; ac wrth ddarparu cymorth yn gynnar mewn ysgolion gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol. Gall gwasanaethau mewn ysgolion wella hygyrchedd, ymdrin yn well â straen sy'n gysylltiedig ag ysgol, lleihau'r pwysau ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) arbenigol drwy ostwng nifer yr atgyfeiriadau amhriodol; a hwyluso diwylliant ehangach sy'n hybu ac yn rhoi gwerth ar iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol mewn ysgolion. Mae'r materion hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sef sicrhau Cymru iachach ac amcanion llesiant Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac i

hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb.

Gan gydnabod y mater pwysig hwn, rydym wedi cytuno i sicrhau bod £1.4 miliwn o gyllid newydd gan Lywodraeth Cymru ar gael, er mwyn cryfhau'r cymorth sydd ar gael i ysgolion gan wasanaethau iechyd meddwl arbenigol a meithrin cysylltiadau sy'n ymestyn o'r ystafell ddosbarth i'r gwasanaethau arbenigol hynny.

Bydd yn gweithredu fel rhaglen beilot ar y cychwyn er mwyn profi sawl model o ymyriadau, a'r bwriad yw cychwyn y gweithgarwch erbyn diwedd 2017 a bydd yn para dros ddwy flynedd academaidd lawn, gan ddod i ben yn ystod haf 2020 a bydd canlyniadau'r rhaglen beilot yn cael eu gwerthuso.

Bydd tair rhaglen beilot yn gweithredu ac yn cwmpasu ysgolion uwchradd, ysgolion canol ac ysgolion cynradd bwydo yn y Gogledd-ddwyrain (Wrecsam a Sir Ddinbych), y De-ddwyrain (Blaenau Gwent, Torfaen a de Powys) a'r Gorllewin (Ceredigion). Bydd ardaloedd y rhaglen beilot yn cwmpasu'r gwahaniaethau cymdeithasol, demograffig a daearyddol amrywiol yng Nghymru. Drwy gynnwys disgyblion blwyddyn 6 ysgol gynradd, wrth iddyn nhw weithio tuag at y broses o bontio i ysgol uwchradd, gallwn werthuso'r canlyniadau o ddarparu cymorth emosiynol ac iechyd meddwl ymysg y grŵp hwn o oedran iau.

Bydd ymarferwyr CAMHS arbenigol yn cael eu recriwtio i weithredu fel gweithwyr cyswllt gydag ysgolion y rhaglen beilot, gan weithio mewn model amlddisgyblaethol er mwyn lleihau gofid emosiynol ac atal salwch meddwl drwy gynnig cymorth cynnar, ac atgyfeiriadau ac ymyriadau priodol: Bydd y model yn sicrhau y gellir gwneud y canlynol:

- darparu cymorth i athrawon i ddeall yn well gofid plentyndod, problemau emosiynol ac iechyd meddwl, a lleihau straen mewn athrawon sy'n poeni am eu disgyblion drwy uwch-sgilio athrawon i adnabod problemau lefel isel yn ymwneud â'u cymhwysedd ac ymdrin â nhw;
- pan fo materion yn cael eu nodi y tu allan i gymhwysedd a sgiliau athrawon, sicrhau bod yna gyswllt, a chyngor ar gael fel y gellir cyfeirio'r unigolyn ifanc at wasanaethau mwy priodol fel CAMHS arbenigol neu Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol, gan alluogi'r ysgol i fodloni anghenion addysgol parhaus yr unigolyn ifanc; a
- sicrhau bod systemau ar waith er mwyn rhannu gwybodaeth briodol rhwng CAMHS ac ysgolion, a bod CAMHS ac ysgolion wedi cytuno ar drefniadau gofal a rennir ar gyfer y bobl ifanc hynny sydd angen cymorth mwy dwys, a bod trefniadau ar waith i gynyddu/ostwng y ddarpariaeth wrth i anghenion yr unigolyn ifanc bennu'r sefyllfa.

Mae'r cyllid yn cynnwys darpariaeth i werthuso'r rhaglenni peilot, a bydd y gwerthusiad yn ystyried amrywiaeth eang o fesurau o safbwynt athrawon a disgyblion. Bydd y gwaith hwn yn gysylltiedig â gweithgareddau ehangach sydd â'r nod o wella lles emosiynol plant a phobl ifanc, fel Hwb Cymorth Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACE), ac un o'i nodau yw sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn wybodus am ACE. Yn ogystal, bydd y gweithgarwch yn ymwneud â datblygu'r cwricwlwm newydd, gan gynnwys y Maes Iechyd a Lles mewn perthynas â Dysgu a Phrofiad. Bydd hyn yn sicrhau dull integredig er mwyn cael

y canlyniadau gorau posibl ar gyfer plant a phobl ifanc yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Byddwn yn sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y fenter bwysig hon wrth i'r gweithgarwch fynd rhagddo.